

Soundlands mewn partneriaeth ag  
Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir  
(WWT) a Migrations yn cyflwyno  
Soundlands in partnership with the  
Wildfowl and Wetlands Trust (WWT)  
and Migrations presents

Galwad Agored  
Soundlands 2019  
Soundlands  
Open Call 2019

Seindiroedd  
Soundlands



# Y GLOCH THE BELL

Gosodiad prifoclyd gan yr artist rhyngwladol  
A thought-provoking installation from international artist

## BOUKE GROEN

yng Nghanolfan Gwlyptir WWT Llanelli.  
at WWT Llanelli Wetland Centre.

**8 Mehefin - 11 Awst**  
**June - August 2019**

# Y GLOCH

## Bouke Groen


### (Yr Iseldiroedd)

Dewiswyd Bouke Goen o blith cant a mwy o artistiaid o bob cwr o'r byd a oedd wedi anfon cynigion i Alwad Agored Soundlands 2019. Mae'r *Gloch* yn osodiad celf newydd trawiadol a grëwyd yn arbennig ar gyfer gwarchodfa Gwlyptir Llanelli. Dyma gloch eglwys hynafol sy'n canu cnul ond, yn rhyfedd ddigon, mae wedi ei hamgáu mewn cerflun o giwbau gwydr.

Am ganriboedd, mae clychau wedi bod yn ein rhybuddio yngylch trychinebau o bob math. Ond rhag pa berygl mae'r gloch hon yn ein rhybuddio? A fyddwn ni'n cymryd sylw o'i rhybudd?

#### Yr Artist

Mae Bouke Groen yn artist gweledol o'r Iseldiroedd sy'n aml yn gweithio gyda sain. Yn ei waith mae Groen yn cwestiynu'r ffyrdd yr ydym yn rhngweithio â'n gilydd a'n hamgylchedd. Nid yw Bouke yn cymryd ochr arbennig mewn dadl, ond yn hytrach mae'n ceisio adlewyrchu, heb farn, sut rydym yn trin ein gilydd a'r byd. Mae Groen wedi arddangos yn eang ar draws yr Iseldiroedd ond dyma'r tro cyntaf iddo arddangos yng Nghymru.



"Datblygodd y syniad o'r *Gloch* yn naturiol iawn. Yn Ffrisia lle'r ydw i'n byw, mae 'na wlyptiroedd tebyg o'r enw'r Wadden. Rydw i'n adnabod yr ardal hon ac roeddwn i'n gallu darlunio'n hawdd sut y byddwn yn creu'r celfwaith. Mae WWT Llanelli yn lle rhyfeddol ac rydw i'n gobeithio y bydd fy ngwaith yno yn ennyd diddordeb."

– Bouke Groen

#### Canolfan Gwlyptir Llanelli

Yng Nghanolfan Gwlyptir Llanelli gallwch fwydo un o'r gwyddau prinnav yn y byd â llaw, gweld ffamingos llachar, chwiliota am drychfilod neu archwilio pyllau, mwynhau gwyliau adar o'r cuddfannau a chrwydro'r warchodfa i weld gloynnodd byw, gweision y neidr a llawer mwy!

WWT Llanelli  
Llwynhendy  
Llanelli  
Sir Gaerfyrddin  
SA14 9SH

01554 741087  
[www.wwt.org.uk](http://www.wwt.org.uk)  
[info.llanelli@wwt.org.uk](mailto:info.llanelli@wwt.org.uk)

**Agored**  
Dydd Llun-Dydd Sul  
9.30am-6.00pm  
8 Mehefin-11 Awst 2019

#### Detholwyr

Chris Watson – Recordydd Maes  
Jana Winderen – Artist Sain  
Maud Seuntjens – Klankenbos  
Karine Décorne – Migrations  
Dr Brian Briggs – WWT  
Dominic Chennell – Soundlands

#### Soundlands

Prosiect di-elw yw Soundlands sy'n amcanu i wneud cyfraniadau cadarnhaol i'n hamgylchedd drwy'r celfyddydau sain. Mae digwyddiadau blaenorol yn cynnwys *Piano Transplants* gan Annea Lockwood (UDA); *Singing Menai Bridge* gan Jodi Rose (Awstralia); *Toriad* gan Manuel Rocha Iturbide (Mecsico); *Songsmith* gan Jenna Burchell (De Affrica). [soundlands.org](http://soundlands.org)

#### Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir

Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir (WWT) yw'r prif sefydliad cadwraethol bydeang sydd wedi ymrwymo i ddiogelu gwlyptiroedd a phopheth sy'n byw yn yndyd ac o'u hamgylch. WWT yw'r unig elusen yn y DU a chanddi rwydwaith cenedlaethol o ganolfannau gwlyptiroedd arbenigol y gall pobl ymweld â hwy. Cafodd ei sefydlu yn 1946 gan y diweddar Syr Peter Scott, y naturiaethwr a'r artist adnabyddus. [wwt.org.uk](http://wwt.org.uk)

#### Migrations

Cafodd Migrantions ei sefydlu yn 2004 ac mae'n dod â chelfyddydau cyfoes rhngwladol i Gymru ac ar yr un pryd yn datblygu cyweithiau, comisiynau a phartneriaethau yng Nghymru a thu hwnt. Mae digwyddiadau blaenorol yn cynnwys: *Museum of the Moon* gan Luke Jerram (DU); *TAPE* gan Numen / For Use (Croatia); *Treehugger* gan Marshmallow Laser Feast (DU). [migrations.uk](http://migrations.uk)

#### Diolchiadau

Mae Soundlands yn cael ei ariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Trefnir comisiwn Soundlands ar gyfer Canolfan Gwlyptir (WWT) Llanelli mewn partneriaeth â Migrations a'r WWT.

Lluniau: Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir/  
Bouke Groen



# THE BELL

## Bouke Groen

### (Netherlands)

Bouke Goen was chosen from over one hundred artists from around the world who submitted proposals to Soundlands Open Call 2019. *The Bell* is his striking new art installation created specially for the Llanelli Wetland reserve. An antique church bell tolls but is strangely sealed in a sculpture of glass cubes.

For centuries, bells have warned us of impending disaster. But what danger is this bell alerting us to? Will we heed its warning?

#### The Artist

Bouke Groen is a visual artist from the Netherlands who often works with sound. In his work Groen questions the ways in which we interact with each other and our environment. However, he doesn't take a side in debates but rather attempts to reflect, without judgement, how we treat each other and the world. Groen has exhibited widely across the Netherlands but this is his first time exhibiting in Wales.

"The idea for *The Bell* came to me naturally. In Friesland where I live, there are similar wetlands called the Wadden. I know this area and could easily visualise how I would make the artwork. WWT Llanelli is an amazing place and I hope you'll be intrigued by my work there."  
– Bouke Groen

#### Llanelli Wetland Centre

At the Llanelli Wetland Centre you can hand feed the rarest goose in the world, see colourful flamingos, go bug hunting or pond dipping, enjoy bird watching from the hides and explore the reserve to see butterflies, dragonflies and more!

WWT Llanelli  
Llwynhendy  
Llanelli  
Carmarthenshire  
SA14 9SH  
01554 741087  
[www.wwt.org.uk](http://www.wwt.org.uk)  
[info.llanelli@wwt.org.uk](mailto:info.llanelli@wwt.org.uk)

Open  
Monday-Sunday  
9.30am-6.00pm  
8 June-11 August 2019



#### Selectors

Chris Watson – Field Recordist  
Jana Winderen – Sound Artist  
Maud Seuntjens – Klankenbos  
Karine Décorne – Migrations  
Dr Brian Briggs – WWT  
Dominic Chennell – Soundlands

#### Soundlands

Soundlands is a not-for-profit project, aiming to make positive contributions to our environments through the sound arts. Previous events include *Piano Transplants* by Annea Lockwood (USA); *Singing Menai Bridge* by Jodi Rose (Australia); *Toriad* by Manuel Rocha Iturbide (Mexico); *Songsmith* by Jenna Burchell (South Africa). [soundlands.org](http://soundlands.org)

#### Wildfowl & Wetlands Trust

The Wildfowl and Wetlands Trust (WWT) is the leading global conservation organisation committed to the protection of wetlands and all that live in and around them. WWT is the only UK charity with a national network of specialist wetland centres that people can visit. It was founded in 1946 by the late Sir Peter Scott, the renowned naturalist and artist. [wwt.org.uk](http://wwt.org.uk)

#### Migrations

Founded in 2004, Migrations brings international contemporary arts to Wales while developing innovative collaborations, commissions and partnerships in Wales and further afield. Previous events include: *Museum of the Moon* by Luke Jerram (UK); *TAPE* by Numen / For Use (Croatia); *Treehugger* by Marshmallow Laser Feast (UK). [migrations.uk](http://migrations.uk)

#### Acknowledgements

Soundlands is funded by Arts Council of Wales. Soundlands' commission for WWT Llanelli Wetland Centre is made in partnership with Migrations and WWT.

All photos: Wildfowl and Wetlands Trust/  
Bouke Groen



Cyngor Celfyddydau Cymru  
Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN  
Y LOTERI  
LOTTERY FUNDED



Seindiroedd  
Soundlands

